# AMODAU TRWYDDEDU
# AR GYFER
# MARCHNADOEDD ACHLYSUROL

*YHOEDDWYD GAN:*

**ADRAN MARCHNADOEDD**
**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**NEUADD Y SIR**
**YR WYDDGRUG, CH7 6NB**

**☎ 07919 166279 SWYDDOG MARCHNADOEDD**

***'Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg'***

# AMODAU TRWYDDED
# A
# DATGANIAD POLISI

## *POLISI MARCHNADOEDD*

***'HYRWYDDO A GWARCHOD RHYDDFREINTIAU MARCHNAD Y CYNGOR MEWN MODD SY'N CYNNAL HYFYWEDD ARIANNOL CANOL TREFYDD YN SIR Y FFLINT, CYNORTHWYO MARCHNADOEDD ELUSENNOL, AC ATAL MARCHNADOEDD RHAG GWEITHREDU MEWN MODD SY'N ACHOSI I AELODAU O'R CYHOEDD GWYNO AMDANYNT'***

## AMODAU

1 Bydd yr amodau hyn yn berthnasol i bob marchnad achlysurol, ffair, marchnad hen bethau, marchnad grefftau a'u tebyg sydd o fewn 6 2/3 milltir i un o farchnadoedd Cyngor Sir y Fflint ac sydd wedi ei lleoli yn y sir.

2 Y Cyngor Sir sydd â'r hawl i gynnal marchnadoedd ac ni all unrhyw gwmni, elusen na sefydliad arall gynnal marchnad yn Sir y Fflint heb ganiatâd y Cyngor. Mae'r digwyddiadau lle ceir " tyrfa o brynwyr a gwerthwyr" a gosod llefydd a stondinau, y cyfeirir atynt ym mharagraff 1, yn dod o dan y disgrifiad 'marchnadoedd neu ffeiriau', ac maent yn ddarostyngedig i'r amodau hyn.

3 Os cynhelir marchnad, ffair neu arwerthiant cist car etc gyda chaniatâd y Cyngor, mae tâl cydnabyddiaeth £2.00 yn daladwy ar gyfer pob stondin neu gerbyd (h.y. am bob wyth troedfedd neu ran ohono), gyda lleiafswm o £90.66 yn daladwy am bob marchnad, ffair neu arwerthiant cist car etc., oni bai fod tâl arall wedi ei godi.

4 Dylid gwneud cais am hawl i gynnal marchnad y tu allan i ffiniau'r Sir i'r Cyngor Sir priodol, ond mae Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r hawl dan Gyfraith Gwlad i wrthwynebu marchnadoedd o'r fath sydd o fewn 6 2/3 milltir, ac i hawlio amddiffyniad rhagddynt.

5 Mae'n rhaid rhoi rhybudd i'r Cyngor o leiaf 28 diwrnod **ymlaen llaw** cyn cynnal arwerthiant cist car/ffair/marchnad etc.

*'Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg'*